# Canllaw arfer da: gwarchod beleod yn ystod gweithrediadau rheoli coetir a gwaith coed

*Fersiwn 1.0 Mai 2026*

Os ydych chi'n dibynnu ar ddilyn arferion da i gadw o fewn y gyfraith, yna:

- mae'n **rhaid** cymryd mesurau osgoi rhesymol i warchod beleod
- **dylech** ddilyn cymaint o'r pum cam gweithredu gorau i wella cynefin i feleod ag y gallwch

## Cyflwyniad

Mae'r bele yn aelod o deulu'r carlymoliaid ac ar un adeg roedd yn eang ei wasgariad ledled Cymru. Yn hanesyddol, rheoli ysglyfaethwyr a datgoedwigo yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif oedd yn gyfrifol am ei ddirywiad. Arweiniodd hyn at ei ddiflaniad swyddogaethol yng Nghymru.

Rhwng 2015 a 2017, fel rhan o ymdrech enfawr a arweiniwyd gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent, fe drosglwyddwyd 51 o unigolion o'r Alban i'r Canolbarth. Rhyddhawyd yr anifeiliaid hyn i gynefinoedd coetir addas yng Ngheredigion a'r ardaloedd cyfagos, ac mae bridio llwyddiannus wedi'i gofnodi'n flynyddol ers eu rhyddhau. Ystyrir bod y boblogaeth bellach yn hyfyw ac yn ehangu, gydag unigolion yn gwasgaru ymhell y tu hwnt i'r safleoedd rhyddhau gwreiddiol. Fodd bynnag, mae'r bele wedi'i ddosbarthu fel rhywogaeth mewn perygl difrifol yng Nghymru oherwydd bod y niferoedd yn parhau i fod yn isel, gan arwain at boblogaeth dan fygythiad.

Mae beleod fel arfer yn byw mewn coetiroedd, ond maent yn gallu addasu'n dda iawn ac wedi'u cofnodi mewn ardaloedd mynyddig ucheldirol, glaswelltiroedd lled-naturiol, rhostiroedd, a hyd yn oed cynefinoedd arfordirol.

Mae angen cynefin ar feleod gyda rhywogaethau coed amrywiol a fflora neu brysgwydd trwchus ar y ddaear sy'n cynnal mamaliaid bach, adar, anifeiliaid di-asgwrn-cefn a ffrwythau i ddarparu amrywiaeth o fwyd drwy gydol y flwyddyn. Maent yn defnyddio amrywiaeth o nodweddion fel safleoedd nythu – er enghraifft, ceudodau mewn coed, nythod gwiwerod, coed wedi'u cwympo gan y gwynt a phlatiau gwreiddiau wedi eu troi, wynebau creigiau, a hen adeiladau. Gall safleoedd lloches naturiol fod yn ffactor cyfyngol, a gall gosod blychau lloches i greu safleoedd lloches artiffisial gefnogi bridio a sefydlu poblogaethau.

Ystyrir adferiad y bele yng Nghymru yn un o'r ymdrechion ailgyflwyno cigysyddion mwyaf llwyddiannus ym Mhrydain. Mae gwaith diogelu cynefin, monitro ac ymgysylltu â'r cyhoedd parhaus yn hanfodol i sicrhau hyfywedd hirdymor y rhywogaeth goetir garismatig hon.

# Sut mae beleod yn cael eu gwarchod?

Mae’r bele yn rhywogaeth a warchodir yn y DU o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi gymryd camau rhesymol i osgoi eu niweidio mewn ffordd a fyddai'n drosedd, fel eu lladd neu eu hanafu'n fwriadol, neu ddifrodi, dinistrio neu rwystro mynediad i'w ffeuau yn fwriadol neu'n ddi-hid, neu aflonyddu ar feleod tra byddant yn defnyddio eu ffeuau.

Er y dylech chi bob amser anelu at osgoi unrhyw niwed i rywogaethau a warchodir, mae amddiffyniad ar gael os bydd niwed yn digwydd fel ‘canlyniad damweiniol i weithrediad cyfreithlon’ ac ‘na ellid yn rhesymol fod wedi'i osgoi’. I ddibynnu ar yr amddiffyniad hwn, bydd angen i chi allu dangos eich bod wedi cymryd pob cam rhesymol i leihau effaith eich gweithrediad ar y rhywogaeth. Mae dangos eich bod wedi dilyn y mesurau yn y canllaw arfer da hwn yn un ffordd o ddangos eich bod wedi gwneud hyn.

Mae gan weithgarwch rheoli coetir priodol rôl bwysig i'w chwarae wrth gynnal yr amodau cynefin y mae eu hangen ar y bele. Fodd bynnag, gall gweithrediadau coedwigaeth fod yn niweidiol hefyd os na chânt eu rheoli mewn modd sensitif.

Os na allwch osgoi trosedd drwy ddilyn y canllawiau hyn, efallai y bydd ecolegydd cymwys yn gallu datblygu ffyrdd gweithio amgen, penodol i'r safle, i'ch galluogi i lynu wrth y gyfraith.

Nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru y pŵer i roi trwyddedau sy'n caniatáu niwed i rywogaethau a warchodir yn y DU at ddibenion coedwigaeth.

# A yw beleod yn defnyddio eich coetir?

Gyda Chymdeithas y Mamaliaid, rydym wedi cynhyrchu canllaw, *Rhywogaethau gwarchodedig mewn coetiroedd: canllaw maes ar gyfer rheolwyr coetiroedd yng Nghymru*, sy'n cynnwys cyngor penodol ar sut i gynnal arolygon i wirio am rywogaethau a warchodir.

## Gwirio am gofnodion

Os yw eich safle o fewn 10 km i gofnod o’r bele sy'n llai na deng mlwydd oed, mae'n llawer mwy tebygol y bydd beleod yn defnyddio'ch coetir, a bydd angen i chi fod yn arbennig o wyliadwrus am dystiolaeth o'u presenoldeb pan fyddwch chi'n cynnal eich arolwg ar droed.

Os byddwch yn gwneud cais am drwydded cwympo coed, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwirio am gofnodion. Os byddwn yn dod o hyd i gofnodion sy'n awgrymu presenoldeb beleod, byddwn fel arfer yn ychwanegu amod amgylcheddol at eich trwydded cwympo coed yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddilyn y mesurau yn y canllaw hwn.

# Arolwg ar droed

Bydd arolygu coetir am feleod yn cynnwys chwilio am arwyddion o'u presenoldeb ac adnabod ac asesu unrhyw safleoedd lle mae ganddynt ffeuau. Hyd yn oed os nad ydych wedi dod o hyd i gofnodion, dylech chi barhau i gadw llygad am dystiolaeth sy'n awgrymu eu bod nhw'n bresennol.

Bydd *Rhywogaethau gwarchodedig mewn coetiroedd: canllaw maes ar gyfer rheolwyr coetiroedd yng Nghymru* yn cynorthwyo unigolyn cymwys i wneud hyn.

Mae arwyddion o feleod yn cynnwys chwilio am dail ac olion pawennau. Gellir defnyddio camerâu llwybr hefyd i gadarnhau eu presenoldeb, er y gall gymryd cyfnod hir o amser cyn y gellir dod i gasgliadau. Gall y rhain gadarnhau presenoldeb beleod, ond efallai nad ydynt yn dechnegau dibynadwy i ddangos eu bod yn absennol.

Bydd angen i chi nodi safleoedd lle gellir creu ffeuau a'u hasesu am dystiolaeth o ddefnydd, gan gofio na allwch chi, yn gyfreithiol, aflonyddu ar fele heb drwydded arolygu. Y dystiolaeth fwyaf amlwg o safle ffau yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd yw presenoldeb llawer o dail ar ben y safle, neu o'i amgylch, yn enwedig blychau ffeuau. Gellir gweld y rhain o bell, heb yr angen am drwydded.

Os oes gan eich coetir flychau ffeuau beleod, dylech gysylltu â'r sefydliad sy'n gyfrifol am eu gosod i gael cyngor cyn gynted â phosibl. Mae'n debyg eu bod nhw wedi bod yn monitro'r defnydd a byddan nhw'n gallu eich helpu chi.

Cyn y gallwch chi weithredu'r mesurau ataliol yn yr adran nesaf, bydd angen i chi fod wedi sefydlu'r canlynol:

1. A yw cofnodion, arwyddion maes neu dystiolaeth arall yn dangos bod beleod yn defnyddio'r coetir ac, os felly:
    a. lleoliad unrhyw ffeuau beleod
    b. pa rai (os o gwbl) o'r ffeuau hynny sy'n dangos tystiolaeth o'u defnyddio fel ffeuau geni

Os byddwch chi'n canfod bod cofnod hanesyddol o ffau yn ymwneud â nodwedd nad yw'n amlwg ar y ddaear mwyach (fel ffau artiffisial sydd wedi'i cholli), efallai y byddwch chi'n gallu diystyru'r rhain. Fodd bynnag, er mwyn eich amddiffyn eich hun, dylech gofnodi'r dystiolaeth yn ofalus cyn i chi wneud unrhyw waith, a dylech chi barhau i ragweld y bydd beleod yn defnyddio ffeuau eraill yn yr ardal.

# Mesurau osgoi rhesymol i warchod beleod

Os ydych chi'n dibynnu ar ddilyn yr arferion da hyn i gadw o fewn y gyfraith, bydd angen i chi lynu wrth y mesurau canlynol. Os na allwch wneud hyn, efallai y bydd ecolegydd cymwys yn gallu awgrymu mesurau lliniaru penodol i'r safle a allai ganiatáu ichi wyro oddi wrth y mesurau safonol hyn heb achosi trosedd. Os nad yw hyn yn bosibl, efallai y bydd angen i chi newid eich cynlluniau.

Os byddwch yn dod o hyd i dystiolaeth o'r rhywogaeth yn annisgwyl yn ystod gwaith, dylech ystyried a allwch gymhwyso'r mesurau yn y canllaw hwn neu geisio cyngor gan ecolegydd cymwys.

Wrth weithio mewn coetir lle mae tystiolaeth yn dangos y gallai beleod fod yn bresennol, dylid glynu wrth y canlynol:

1. **Gwarchod ffeuau geni gweithredol**

- Ni ddylech ddinistrio, difrodi na tharfu ar unrhyw ffau geni weithredol rhwng 1 Mawrth a 31 Gorffennaf.
- Dylech adael llain glustogi amddiffynnol heb ei tharfu o 100 metr o amgylch ffeuau geni gweithredol yn ystod y cyfnod hwn.

2. **Diogelu safleoedd ffeuau eraill**

- Dylech gadw cymaint o safleoedd ffeuau â phosibl, yn ddelfrydol â llain glustogi o lystyfiant heb ei tharfu, hyd yn oed os nad ydynt yn ymddangos eu bod yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd.

# Y pum cam gweithredu gorau i wella cynefin ar gyfer beleod

Gall rheoli eich coetir yn unol â Safon Coedwigaeth y DU ddod â buddion sylweddol i fywyd gwyllt. Byddai'r camau gweithredu isod yn arbennig o werthfawr i feleod, a byddant hefyd yn cefnogi llawer o rywogaethau eraill:

### 1. Cynnal strwythurau coedwig amrywiol

Cadwch gymysgedd o goed o oedrannau a rhywogaethau gwahanol. Cadwch rywfaint o dir agored parhaol â gorchudd tir trwchus ar gyfer bywyd gwyllt. Gwellwch ymylon coetiroedd gan ddefnyddio llwyni sy'n dwyn aeron megis *Vaccinium*, mieri, a mafon gwyllt.

### 2. Cynllunio ailstocio gyda rhywogaethau brodorol sy'n dwyn ffrwythau

Blaenoriaethwch rywogaethau cynhenid sy'n cynhyrchu ffrwythau a hadau y gellir eu bwyta. Gwellwch argaeledd bwyd ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau coetir.

### 3. Cadw prennau marw a choed â cheudodau

Cadwch brennau marw sy'n sefyll ac sydd wedi cwympo, coed hynod, a choed sydd â cheudodau. Mae'r rhain yn darparu safleoedd nythu a chlwydo hanfodol.

### 4. Dynodi ardaloedd dargadw tymor hir ac ymyrryd lleiaf

Mae ardaloedd rheoli coedwigoedd gorchudd di-dor a dargadw tymor hir yn arbennig o fuddiol i feleod gan eu bod yn darparu cyfleoedd gwell i fforio a gwneud ffeuau. Rheolwch rai cellïoedd fel cronfeydd wrth gefn hirdymor i gynnal cymhlethdod strwythurol. Lleihewch aflonyddwch a chaniatáu i brosesau naturiol ddatblygu.

### 5. Diogelu nodweddion cynefin allweddol

Cadwch hen adeiladau, ogofâu, ceuffyrdd mwyngloddiau, brigiadau creigiau, platiau gwreiddiau wedi’u troi i fyny, boncyffion mawr, tomenni tocion, a choed wedi'u chwythu gan y gwynt.

# Gwybodaeth bellach

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth ddefnyddiol am dechnegau arolygu a dulliau rheoli cadarnhaol ar gyfer beleod yma:

Rhywogaethau gwarchodedig mewn coetiroedd: canllaw maes ar gyfer rheolwyr coetiroedd yng Nghymru

Managing forest and woodlands for pine martens: practical measures to protect and benefit the Pine Marten: Pine-Martens-and-Forest-Management-Leaflet.pdf (vwt.org.uk)